

Polisi Entrepreneuriaeth, Cyfoethogi a Menter

Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw amlinellu bwriad CAVC i gynnig ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuriaidd i ehangu gorwelion dysgwyr a chaniatáu cyfleoedd iddynt gynyddu eu potensial gan gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd y coleg a'r gymuned. Manteisio ar y cyfleoedd i ddysgwyr ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni eu dyheadau; ysbrydoli unigolion ar gyfer economi fedrus. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i gynyddu eu potensial i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, astudiaeth bellach neu symud ymlaen i addysg uwch a/neu gyflogaeth fel y bo'n briodol i bob unigolyn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sydd â rôl sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm o fewn y coleg.

Datganiadau'r Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y polisi hwn:

- Mae egwyddorion Gatsby yn rhan gynhenid o'r holl wasanaethau a ddarperir gan y timau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth ac maent yn ymgorffori'r wyth meincnod arfer orau.
- Tra yn y coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.
- Rhaid cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial tra yn y Coleg, mewn amgylchedd lle mae eu **llesiant** yn cael ei gyflawni fel eu bod yn teimlo'n dda amdanynt eu hunain ac yn parchu eraill.
- Mae ymrwymiad i ddulliau adferol yn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Sicrhau dull cydlynol a chydweithredol ledled y coleg tuag at daith unigol y dysgwyr, gan gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llwyddiannus dysgwyr gan gynnwys presenoldeb, cyflawniad a dilyniant.
- Sicrhau y bydd gan ddysgwyr brofiad uniongyrchol neu gysylltiedig o'r gweithle a datblygu cysylltiadau gwaith ffurfiol effeithiol gyda chyflogwyr drwy fewnbwn y cwricwlwm.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 24

- Cynorthwyo dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau menter, ffeiriau gyrfaoedd a chysylltiedig â gwaith, ac i gael mynediad at weithdai, sesiynau hyfforddi, cystadlaethau a dosbarthiadau meistr.
- Datblygu cymuned o ddysgwyr coleg gan gynnwys Undeb Myfyrwyr CAVC gweithgar a gweladwy.
- Darparu addysg entrepreneuriaeth a chyfoethogi o ansawdd uchel yn unol â Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu hymestyn a'u herio drwy ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth priodol.
- Sicrhau y bydd dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (MAT) yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau trosglwyddadwy drwy eu cymhwyso i'r rhaglen Career Ready.
- Cynnal ei bartneriaeth a'i berthnasoedd â Gyrfa Cymru a'u datblygu ymhellach.
- Sicrhau mai nod rhaglenni Gyrfaoedd, Profiad Gwaith Cysylltiedig a Chyfoethogi ffurfiol y Coleg yw cwrdd â Safonau Cenedlaethol a darparu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r cyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael. Nod y Coleg yw cynorthwyo dysgwyr wrth ddewis gyrfa a chyflogaeth.
- Datblygu dull "coleg cyfan" ar gyfer datblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i **ddatblygu** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau
- Darparu amrywiaeth o fecanweithiau cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr.
- Sicrhau bod unrhyw leoliadau profiad gwaith neu interniaethau yn cael eu trefnu gan y Coleg yn unol â'r polisi Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (CIAG).
- Sicrhau bod y Coleg yn cynnal ei achrediad Marc Gyrfa Cymru a'r Dyfarniadau Matrix.
- Cynorthwyo dysgwyr i wireddu eu potensial llawn drwy ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer byd gwaith a bod ganddynt well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n pennu llwyddiant economaidd.
- Datblygu gwasanaeth cynhwysfawr a chydweithredol sy'n gweithio'n agos gyda thiwtoriaid cwrs i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfleoedd i:
 - Gymryd rhan mewn digwyddiadau cyfoethogi
 - Datblygu clybiau a chymdeithasau a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at sgiliau cymdeithasol y dysgwyr a bywyd cymunedol y coleg
 - Cymryd rhan weithgar mewn digwyddiadau a chystadlaethau entrepreneuriaeth
 - Cystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau Sgiliau Cymru

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 24

- Manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad rhyngwladol drwy gymryd rhan mewn cyfnewidiadau a theithiau ERASMUS.
- Datblygu'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i wneud cais i gymryd rhan yn y rhaglen Career Ready.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi a gweithdrefnau Entrepreneuriaeth a Menter y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n achos pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ayyb yn cefnogi egwyddorion y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr ag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu ddrwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau CPD ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 24

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r cyfleoedd sy'n codi ohono.
- Dilyn gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, gan ddefnyddio cefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau yn benodol i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Cyfeiriadau

Polisiau Cysylltiedig

Derbyniadau

Addysgu a Dysgu

Tiwtorial

Entrepreneuriaeth a Menter

Ansawdd

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Datblygiad Staff

Diogelu Data

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 24

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Derbyniadau
Addysg Gysylltiedig â Gwaith
Entrepreneuriaeth a Menter
Datblygiad Staff
Ymweliadau Addysgol

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 3 blynedd.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo:

01 Gorffennaf 2019

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad adolygu:

01 Gorffennaf 2024

**Rheolwr sy'n Gyfrifol: Deon Taith y
Dysgwr**

**Arweinydd Gweithredol:
Dirprwy Bennaeth**

Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 24